Yr Alarch a'r Pysgodyn Peic

Caredigrwydd / Parchu Eraill / Cyd-dynnu

Hen aderyn cas oedd yr alarch. Fel arfer mae'r alarch yn edrych yn aderyn gosgeiddig, tawel. Ond doedd hyn ddim yn wir am yr alarch oedd yn byw ar y llyn ar gwr y pentref. Un diwrnod pan oedd hwyaden wyllt yn mynd am dro ar draws y llyn efo'i chywion bach dyma'r alarch yn ymosod arnyn nhw. Roedd hi'n ysgwyd ei hadenydd yn wyllt ac yn hisian fel neidr. Roedd y cywion bach i gyd wedi dychryn am eu bywydau. Yn wir, un diwrnod ymosododd yr alarch ar eneth fach oedd wedi dod a bwyd iddi. Brathodd yr eneth fach yn ei choes. Os byddai aderyn dieithr yn glanio ar y llyn byddai'r alarch yn sicr o'i ymlid. Doedd yr un o'r adar yn hoffi'r alarch. Hi, yn sicr oedd y bwli mawr.

Ond i lawr yng ngwaelod y pwll roedd bwli arall. Pysgodyn oedd hwn – y peic. Mae'r peic yn byw ar bysgod eraill. Bydd yn eu bwyta wrth y dwsin ar waelod y llyn. Pysgodyn cyfrwys ydi'r peic. Bydd yn aros yn llonydd am oriau ar waelod y llyn. Yna'n sydyn bydd yn ymosod ar bysgodyn diniwed fydd yn nofio heibio. Mae ganddo geg fawr gyda sbeiciau fel dannedd. Gyda'r rhain bydd yn darnio'r pysgodyn fydd yn ei ddal. Roedd pob pysgodyn a phob creadur arall oedd yn byw yn y dŵr ofn y peic.

Roedd pob creadur ar wyneb y dŵr ofn yr alarch a phob creadur o dan y dŵr ofn y peic. Clywodd y ddau greadur am ei gilydd. Roedd yr alarch yn gynddeiriog pan glywodd mae'r peic oedd pennaeth y llyn. Yn yr un modd roedd y peic yntau'n gynddeiriog pan glywodd mai'r alarch oedd pennaeth y llyn.

Un diwrnod cyfarfu'r ddau fwli. Pan oedd yr alarch yn nofio'n braf ar wyneb y llyn gwelodd y peic yn llechu yng nghanol y tyfiant ar waelod y llyn. Deifiodd â'i phig agored tuag at y peic. Dychrynodd y peic a cheisiodd amddiffyn ei hun gyda'i geg fawr yn barod i ymosod. Aeth pen yr alarch yn syth i

mewn i geg y peic. Ceisiodd yntau lyncu'r alarch. Ysgydwodd yr alarch ei adenydd yn wyllt nes roedd y dŵr yn tasgu i bobman. Roedd dŵr y llyn yn fudr gan fod yr alarch yn ysgwyd y mwd oedd ar waelod y llyn. Erbyn hyn roedd bron a mygu. Tagodd y peic. Ar ôl rhai munudau roedd dŵr y llyn yn dawel a llonydd. Roedd y mwd oedd ar waelod y llyn wedi llonyddu. Daeth y creaduriaid eraill i weld beth oedd wedi digwydd. Ond y fath olygfa! Ar waelod y llyn roedd yr alarch mawr gwyn yn farw. Ac wrth ei hymyl roedd y peic yntau'n farw.

Aeth y stori ar hyd a lled y llyn. "Glywsoch chi fod y ddau fwli mawr wedi marw?" gofynnodd yr hwyaden wyllt. Roedd y silidon yn falch iawn o glywed ac meddai. "Ydi o'n wir, fod pob bwli yn y diwedd yn siŵr o gyfarfod â rhywun fydd yn troi arno?" Aeth yn ei flaen i ddweud wrth pob pysgodyn arall fod y ddau fwli wedi marw.

O Dduw, does gen i fawr o ddim i'w ddweud wrth y bwli. Tybed wnei di fy helpu i fod yn garedig wrth bawb hyd yn oed y bwli. Amen.

- Ydi'r bwli bob amser yn llwyddo?
- Beth mae'r stori hon yn ei ddweud wrthym am y bwli?